**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR CYDLYNU TROSOLWG A CHRAFFU a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo gynhadledda ddydd Dydd Llun, 18 Mai 2026**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Keith Evans (Cadeirydd), Y Cynghorydd Marc Davies (Is-gadeirydd) a'r Cynghorwyr Caryl Roberts, Amanda Edwards, Wyn Evans, Gareth Lloyd ac Elaine Evans.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Chris James.
**Aelodau Cabinet a oedd yn bresennol:** Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Democrataidd, Polisi a Pherfformiad a Phobl a Threfniadaeth; Y Cynghorydd Alun Williams, y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Lesiant Gydol Oes; Y Cynghorydd Matthew Vaux, yr Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd.
**Swyddogion a oedd yn bresennol**: Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd; Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu a'r Swyddog Monitro; Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol: Partneriaethau a Pherfformiad; Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd; Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol: Sicrhau Ansawdd a Diogelu; Timothy Bray, Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil Posibl; Katy Sinnet-Jones, Swyddog Llywodraethu, Archwilio Mewnol; Dwynwen Jones, Swyddog Cefnogi Trosolwg a Chraffu; Cyfieithwyr.
**Hefyd yn bresennol:** Hazel Lloyd-Lubran, Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a Phrif Weithredwr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO).

(10.00 - 11.10 am)

**5 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr canlynol am fod yn absennol:
- Y Cynghorydd Ceris Jones.
- Y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans, a oedd yn cyflawni dyletswyddau eraill ar ran y Cyngor.

**6 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Ni ddatgelwyd yr un buddiant personol na buddiant a oedd yn rhagfarnu (nac ychwaith unrhyw ddatganiadau chwipio).

**7** **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cynghorydd Keith Evans bawb i'r cyfarfod. Hwn oedd ei gyfarfod cyntaf fel Cadeirydd y Pwyllgor. Diolchodd i'r Cynghorydd Wyn Evans am arwain y Pwyllgor Cydlynu dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac estynnodd longyfarchiadau iddo ar gael ei benodi'n Is-gadeirydd y Cyngor yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ddydd Gwener.

**8** **Cysur/Cwmpas**

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Williams, yr Aelod Cabinet dros Lesiant Gydol Oes, yr adroddiad gerbron y Pwyllgor gyda chymorth Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol – Sicrhau Ansawdd a Diogelu.

Roedd y prif bwyntiau fel a ganlyn:

- Yn y chwarter hwn, bu cynnydd yn nifer yr adroddiadau/atgyfeiriadau a aeth ymlaen i'r Gweithdrefnau Amddiffyn Plant (230). Roedd hyn yn cymharu â ffigwr o 167 yn Chwarter 2 a 164 yn Chwarter 1.
- Yn Chwarter 3, cafwyd 1358 o gysylltiadau ac atgyfeiriadau o'i gymharu â 1176 yn Chwarter 2. O'r 1358 o gysylltiadau/atgyfeiriadau, aeth 16.9% ymlaen i gam Trafodaeth Strategaeth (roedd hyn yn ymwneud â 318 o blant gan fod grwpiau brodyr a chwiorydd yn cael eu trafod mewn un drafodaeth strategaeth). O'r 16.9%, aeth 8.4% ymlaen wedyn i Ymholiad Adran 47 ac yna aeth 1% ymlaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant Cychwynnol (roedd hyn yn ymwneud â 29 o blant).
- Y rheswm dros y cynnydd sylweddol yn y chwarter hwn oedd y cynnydd mewn atgyfeiriadau/cysylltiadau. Hefyd, roedd nifer o deuluoedd â grwpiau mawr o frodyr/chwiorydd a oedd yn rhan o'r broses Trafodaeth Strategaeth gychwynnol. Cafwyd atgyfeiriadau hefyd ar gyfer 17 o blant a oedd yn ymwneud â phryderon ynghylch y broses pryderon proffesiynol.
- Roedd 29 o blant/pobl ifanc yn destun Cynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant yn y chwarter hwn o'i gymharu â 16 yn Chwarter 2. Cofrestrwyd 25 o blant ar y gofrestr amddiffyn plant yn y chwarter hwn.
- Roedd 26 o blant yn destun Adolygiad Cynhadledd Amddiffyn Plant yn y chwarter hwn a thynnwyd 10 o'r plant hynny oddi ar y gofrestr yn ystod y chwarter.
- Cafwyd 114 o Ymholiadau Adran 47 yn y chwarter, ac ymgymerwyd â 91 ohonynt ar y cyd â'r Heddlu.
- Y prif bryderon a arweiniodd at gwblhau ymholiadau amddiffyn plant yn ystod y chwarter hwn oedd cam-drin corfforol, cam-drin / cam-fanteisio rhywiol ac esgeulustod.
- Cwblhawyd 53.6% o'r Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant o fewn 15 diwrnod gwaith yn y chwarter hwn, a oedd yn ostyngiad o'r ffigwr o 86.7% yn y chwarter diwethaf. Roedd amrywiol resymau dros hyn gan gynnwys argaeledd y teulu, yr heddlu neu'r gweithwyr cymdeithasol. Hefyd, bu'n rhaid atal un gynhadledd oherwydd bod y

cysylltiad rhyngrwyd yn wael, ac na allai'r teulu felly gymryd rhan yn llawn.

- Cynhaliwyd 95.8% o'r grwpiau craidd o fewn y terfynau amser a chynhaliwyd 96.2% o'r cynadleddau Adolygiad Amddiffyn Plant o fewn y terfynau amser.
- Ar ddiwedd y chwarter, roedd 45 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o'i gymharu â 31 ar ddiwedd Chwarter 2.
- Y prif ffactorau risg ar gyfer plant/pobl ifanc ar y gofrestr oedd cam-drin domestig a rhieni yn camddefnyddio sylweddau.
- Esgeulustod oedd y prif reswm dros gofrestru plant yn ystod y chwarter hwn.
- Roedd 16 o unigolion yn destun honiadau/pryderon Adran 5 – Diogelu, ac roedd hynny yng nghyswllt ymarferwyr a'r rheiny mewn swyddi o ymddiriedaeth a oedd yn gweithio gyda phlant. Cynhaliwyd 20 Cyfarfod Strategaeth mewn perthynas â'r broses hon, yn ystod y chwarter hwn.

DIOGELU OEDOLION

- Cafwyd adroddiadau am 237 (289 o adroddiadau/atgyfeiriadau) o oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gam-drin neu esgeulustod, y chwarter hwn ac roedd hyn yn gynnydd ers Chwarter 2 pan gafwyd adroddiadau am 205 o oedolion, (258 o adroddiadau/atgyfeiriadau) ac ers Chwarter 1 pan gafwyd adroddiadau am 194 o oedolion (240 o adroddiadau/atgyfeiriadau).
- Staff yr Awdurdod Lleol oedd prif ffynhonnell yr atgyfeiriadau unwaith eto'r chwarter hwn.
- Y categori cam-drin a adroddwyd amdano fwyaf yn y chwarter hwn oedd cam-drin emosiynol/seicolegol, ac yna esgeulustod, cam-drin ariannol, cam-drin corfforol a chamdrin rhywiol
- Adroddwyd bod rhan fwyaf y gamdriniaeth wedi digwydd yng nghartrefi'r bobl eu hunain, ac yna mewn cartrefi gofal. Yn y chwarter hwn, roedd 2 leoliad gofal preswyl yn rhan o'r broses Pryderon Cynyddol ac roedd yr atgyfeiriadau diogelu yn adlewyrchu'r mater hwn.
- Adroddwyd mai perthnasau neu ffrindiau oedd yn bennaf gyfrifol am y gamdriniaeth neu esgeulustod yn ystod y chwarter hwn a'r ail gategori oedd gweithwyr cyflogedig.

Rhoddwyd y cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau. Roedd y prif bwyntiau a godwyd fel a ganlyn:

- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod yr 16 unigolion a gyfeirir atynt yn Adran 5 yr adroddiad (y rheiny a oedd yn destun honiadau yn ymwneud â diogelu neu bryderon am ymarferwyr ac eraill mewn sefyllfaoedd o ymddiriedaeth a oedd yn gweithio gyda phlant) yn achosion ar wâhan ac nid oedd y ffigwr yn cynnwys unrhyw achosion a oedd yn cael eu hailadrodd.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd mai Aberystwyth oedd yr ardal lle ceir y nifer uchaf o atgyfeiriadau amddiffyn plant, gyda Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi yn dilyn hynny. Roedd y graff ar dudalen 7 o 52 yn yr adroddiad yn dangos atgyfeiriadau fesul

cyfeiriadau post ac roedd hyn yn cadarnhau mai Aberystwyth, yn gyson, oedd yn cofnodi'r nifer uchaf.

- Gofynnodd un o'r Aelodau at beth oedd y categori *Arall* ar y graff ar dudalen 7 o 52 yn cyfeirio ato. Cadarnhawyd bod hyn yn ymwneud â phlant a oedd yn byw y tu allan i'r Sir.
- Nodwyd bod y pwysau cynyddol a fodolai ar draws y sector cyhoeddus yn ei gwneud hi'n anoddach trefnu cyfarfodydd aml-asiantaeth o fewn amserlenni penodol. Cydnabuwyd bod gofyn yn aml i weithwyr proffesiynol fynychu nifer fawr o gyfarfodydd o'r fath, a bod hyn weithiau yn gallu arwain at oedi. Fodd bynnag, roedd mesurau diogelu yn cael eu cyflwyno ar unwaith wrth i'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd gael eu gwneud.
- Mewn ymateb i gwestiwn am y cynnydd mewn cysylltiadau ysgolion, cadarnhawyd nad oedd unrhyw reswm penodol dros y cynnydd hwn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Alun Williams am gyflwyno'r adroddiad, gyda chymorth Elizabeth Upcott.

**Argymhelliad:**
Yn dilyn trafodaeth, CYTUNODD Aelodau'r Pwyllgor eu bod wedi ystyried yr argymhellion ac nad oedd gan y Pwyllgor unrhyw argymhellion pellach i'r Cabinet eu hystyried.

**9 Cofnodion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**

Cyflwynodd Hazel Lloyd-Lubran, Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Phrif Weithredwr CAVO, y cofnodion a thynnodd sylw at y prif ddiweddariadau a'r camau gweithredu. Roedd Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol, Partneriaethau a Pherfformiad, a Timothy Bray, Rheolwr Partneriaethau a'r Argyfyngau Sifil Posibl yn y cyfarfod i'w chefnogi. Hefyd, roedd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, a'r Aelod Cabinet yn bresennol.

Prif ddiweddariadau:

- Roedd disgwyl y byddai Cylch Gorchwyl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei adolygu cyn y cyfarfod ym mis Medi. Roedd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraethu'r Uniad rhwng y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ymgymryd â'r gwaith hwn ac roedd wedi paratoi'r Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer y Bwrdd newydd. Roedd fersiynau drafft wedi'u rhannu ag aelodau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a Sir Gaerfyrddin er mwyn derbyn eu sylwadau, a byddai'r Bwrdd newydd yn cymeradwyo'r fersiwn derfynol yn ei gyfarfod cyntaf ar 15 Medi 2026.
- Roedd y cam gweithredu ynghylch nodi'r gofynion o ran swyddfeydd ac adeiladau ac archwilio'r cyfleoedd ar gyfer cydleoli yn Aberystwyth, yn dal i fynd rhagddo.

- *Strategaeth Oed-gyfeillgar:* Byddai diweddariad yn cael ei gynnwys ar agenda cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 22 Mehefin 2026.
- *Adroddiadau ar y Cynllun Llesiant Lleol:* Roedd y traciwr gweithgareddau yn y papurau agenda wedi'i ddiweddaru er mwyn cynnwys y prosiectau cyfredol ac roedd yn cael ei ddefnyddio i helpu â'r gwaith o baratoi adroddiad blynyddol Cynllun Llesiant Lleol 2025–2026 a'r Cynllun Llesiant Lleol interim a oedd yn cael ei baratoi ar y cyd. Roedd fframwaith amlinellol ar gyfer yr adroddiad blynyddol hefyd wedi'i ddatblygu, a byddai'r tîm cymorth yn darparu awgrymiadau i'w cynnwys yn y penodau yn seiliedig ar y gwaith a wnaed dros y 12 mis blaenorol.
- *Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraethu'r Uniad rhwng y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus:* Cyfarfu'r grŵp ar 18 Mawrth ac roedd cynrychiolwyr o'r rhan fwyaf o'r sefydliadau sy'n aelodau yn bresennol. Prif ddiben y grŵp oedd adolygu'r trefniadau llywodraethu a datblygu Cylch Gorchwyl drafft y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd, gan ddefnyddio enghreifftiau o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill a oedd wedi'u huno.
- Roedd y Cynghorydd Wyn Evans, cyn-gadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu wedi nodi pryderon yn flaenorol ynglŷn â sicrhau cynrychiolaeth gyson gan Lywodraeth Cymru. Cadarnhawyd bod cynrychiolwyr bellach wedi'u penodi ar gyfer Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Byddai'r trefniant hwn yn parhau i fod ar waith am o leiaf 12 mis er mwyn sicrhau bod y ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu cynrychioli'n briodol.

Rhoddwyd y cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau. Roedd y prif bwyntiau a godwyd fel a ganlyn:

- Mynegodd yr Aelodau siom nad oedd Sir Benfro yn uno'n ffurfiol â Cheredigion a Sir Gaerfyrddin. Roedd dal gwahoddiad iddynt ymuno â'r Bwrdd felly gallent ddal gwneud hynny yn y dyfodol. Roedd yr aelodau yn falch bod Sir Benfro yn cael ei chynnwys yn y trafodaethau, er enghraifft, wrth baratoi'r Asesiad o Lesiant Lleol ac yng nghyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a chyd-gyfarfodydd swyddogion y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Nodwyd bod gan Gyngor Sir Penfro arweinydd newydd.

**ARGYMHELLIAD**
Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i dderbyn cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2026.

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i Swyddogion Awdurdodau Ceredigion a Sir Gaerfyrddin am eu cydweithio rhagorol yn ystod y broses uno.

**10 Polisi Chwythu'r Chwiban**
Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux, yr Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd yr Adroddiad am Chwythu'r Chwiban gyda chymorth Elin Prysor, Swyddog

Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu, a Katie Sinnet-Jones, Swyddog Llywodraethu, Archwilio Mewnol.

Y tro diwethaf i'r Pwyllgor ystyried diweddariad ar Chwythu'r Chwiban oedd 22 Hydref 2025. Rhoddodd y Cynghorydd Vaux wybod i Aelodau'r Pwyllgor am y newidiadau arfaethedig yn y polisi. Ers 6 Ebrill 2026, yn sgil Deddf Hawliau Cyflogaeth 2025, roedd aflonyddu rhywiol yn cael ei ystyried yn "ddatgeliad cymwys" o dan gyfraith chwythu'r chwiban. Roedd hyn yn sicrhau bod gweithwyr sy'n rhoi gwybod am unrhyw aflonyddu rhywiol yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu diswyddo ac unrhyw niwed. Hefyd, roedd gofynion llymach i gyflogwyr ymdrin ag achosion o'r fath.

**Argymhelliad:**
Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymell i'r Cabinet y dylai gymeradwyo Polisi Chwythu'r Chwiban.

**11 Adroddiad Hunanasesu Craffu**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth yr Adroddiad Hunanwerthuso Trosolwg a Chraffu, gyda chymorth Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd.

Yn 2018 cytunwyd y byddai'r Swyddogion Craffu yn cynnal adolygiad o effeithiolrwydd Trosolwg a Chraffu yng Nghyngor Sir Ceredigion, ac y byddai hyn yn cael ei gynnal yn flynyddol wedi hynny. Adolygwyd y broses yn 2026, gan fabwysiadu Fframwaith Hunanwerthuso Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cynhaliwyd gweithdai ar wahân gydag Aelodau'r Cabinet ac Aelodau Craffu i gasglu eu barn. Roedd y farn honno yn cyfeirio at gyfraniad cadarnhaol y gwaith craffu yn ogystal â meysydd y gellir eu cryfhau er mwyn gwella effeithiolrwydd a dylanwad y gwaith craffu. Datblygwyd cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd.

**Argymhellion:**
1. Ystyried yr ymatebion i'r Adroddiad Hunanwerthuso Trosolwg a Chraffu; a;
2. ystyried y cynllun gweithredu arfaethedig gan benderfynu a fyddai'r pwyllgor craffu yn dymuno gwneud unrhyw sylwadau neu argymhellion ynghylch y cynllun gweithredu arfaethedig.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor:
1. eu bod wedi ystyried yr ymatebion i'r adroddiad Hunanwerthuso Trosolwg a Chraffu, a,
2. nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau nac argymhellion pellach i'w gwneud ynghylch y cynllun gweithredu arfaethedig.
Diolchodd Aelodau'r Pwyllgor i Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol y Gwasanaethau Democrataidd, am drefnu'r gweithdai, am gasglu'r sylwadau ynghyd, ac am ddarparu adroddiad cynhwysfawr o'r trafodaethau.

**12** **Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor a’r Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu gyda chymorth Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd.

Roedd yr Adroddiad Blynyddol ynghylch Trosolwg a Chraffu yn tynnu sylw at y materion allweddol yr oedd y pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi’u hystyried yn ystod 2025/26.

**Argymhelliad:** Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad yn ogystal â hyd a lled y gwaith a wnaed yn ystod 2025/26.

Cytunodd Aelodau’r Pwyllgor i nodi’r wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad yn ogystal â hyd a lled y gwaith a wnaed yn ystod 2025/26.

**13** **Rhaglen Flaen Ddrafft**

Bu i Gadeirydd ac Is-gadeirydd pob Pwyllgor, yn eu tro, ddarparu trosolwg cryno am Flaenraglenni Gwaith eu Pwyllgorau.

Gwnaeth y Cynghorydd Gareth Lloyd, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, atgoffa’r Aelodau y byddai arddangosfa ddronau yn cael ei chynnal cyn cyfarfod y Pwyllgor ar 9 Mehefin 2026. Byddai’r arddangosfa hon yn dechrau am 9:30am y tu allan i’r brif dderbynfa ym Mhenmorfa.

Cytunwyd i gynnwys y canlynol ar y Rhaglen Waith:

**14** **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 5 Mawrth a 19 Mawrth 2026 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion**

Cytunwyd i gadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2026 yn gywir.
Cytunwyd i gadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2026 yn gywir.
Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

**15** **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd ei fod er sylw brys y Pwyllgor**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i’r cyfarfod ac am eu cyfraniadau.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar Dydd Llun, 6 Gorffennaf 2026**

**Cadeirydd:** ____________________

**Dyddiad:** ______________________